# CROESO!

## PECYN GWYBODAETH AM RECRIWTIO GWEITHIWR CYMORTH IEUENCTID




**Area 43**
**35 Pendre**
**Aberteifi**
**SA43 1JS**
**01239 614 566**

## Helo, a chroeso cynnes!

Diolch i chi am ddangos diddordeb mewn gweithio gydag Area 43 a Dyfodol Ni, ac am gredu yn ein cenhadaeth i roi grym a chryfhau llais ieuenctid, drwy eirioli hawliau pobl ifanc i gael mynediad at gymorth lleol o ansawdd uchel. Gobeithiwn eich bod am ymuno â ni a gweithio mewn partneriaeth â phobl ifanc ac eraill i hyrwyddo datblygiad gwasanaethau rhad ac am ddim a arweinir gan bobl ifanc. Yn Area 43 a Dyfodol Ni, credwn fod gan bobl ifanc y pŵer i newid cymunedau; dylent bob amser gael rhywle i droi a rhywun i siarad â nhw, waeth beth fo'r lleoliad neu amgylchiadau.

Am fwy na 25 mlynedd, mae Area 43 wedi darparu cymorth galw heibio a chwnsela i bobl ifanc agored i niwed. Rydym yn falch o'r hyn rydym wedi'i gyflawni, ond mae pobl ifanc yn byw mewn byd sy'n newid yn barhaus. Mae gan wasanaethau cymorth megis Area 43 rwymedigaeth i addasu ac i wrando ar eu lleisiau, eu dymuniadau a'u hanghenion. Mae gennym gyfrifoldeb i ehangu lleisiau'r ifanc a'u hysbrydoli i greu newid.

Mae'r genhedlaeth hon yn tyfu i fyny gyda phwysau cymdeithasol newydd, sy'n dod i'r amlwg, wedi'u gwaethygu gan ddylanwad y cyfryngau cymdeithasol a pholareiddio barn ar faterion fel casineb at fenywod, homoffobia a thrawsffobia. Rhaid i ni roi'r gorau i'r syniad hen ffasiwn y gellir mynd i'r afael â llesiant meddyliol a chorfforol ar wahân o ran materion sy'n effeithio ar iechyd meddwl. Ein cyfrifoldeb ni yw helpu pobl ifanc i ymdopi â materion sy'n effeithio arnyn nhw cyn iddo gyrraedd pwynt argyfwng; dylai fod ganddyn nhw gymuned i droi ati, ni waeth beth fo'u lleoliad neu eu hamgylchiadau.

Mae gennym gyfle i wneud ymrwymiad difrifol i iechyd meddwl pobl ifanc. Dyma gyfle i rieni, athrawon a phobl ifanc roi'r gorau i sibrwd am eu hanghenion iechyd meddwl a dechrau bloeddio am fuddsoddiad yn ei ddyfodol.

Mae angen i ni wynebu'r materion sy'n ymwneud ag ynysigrwydd, hunan-barch a gwydnwch i fynd i'r afael â'r pryderon iechyd meddwl sy'n effeithio ar bobl ifanc yn uniongyrchol. Mae pobl ifanc yn gwybod beth sy'n bwysig iddyn nhw a dylent fod yn arwain sefydliadau yn hytrach na cheisio bod yn rhan ohonyn nhw. Mae angen i ni gael ein harwain gan bobl ifanc, bod yn hyblyg, cael ein harwain gan anghenion, yn wybodus

am drawma ac yn ddibynadwy. Mae angen i bobl ifanc wybod y gallant ddod atom ni, nid yn unig pan fyddan nhw mewn argyfwng, ond cyn iddyn nhw fod mewn argyfwng, gan wybod y cânt eu clywed, y gwrandewir arnyn nhw a'u cefnogi i wneud newidiadau.

Mae angen i wasanaethau apelio at bob person ifanc, bod yn agored, yn gynhwysol ac yn ymgysylltiol. Mae profiadau anfygythiol, llawn hwyl a gwerth chweil yn hanfodol i sicrhau bod pobl ifanc yn gallu ac yn mynd i gyrchu gwasanaethau. Felly, pe baent byth mewn argyfwng, maent yn gwybod ble i droi am gymorth.

Croesawn pobl waeth beth fo’u hoedran, anabledd, hunaniaeth o ran rhywedd, statws priodasol, hil, ffydd neu gred, cyfeiriadedd rhywiol, cefndir economaidd-gymdeithasol, a ph’un a ydych yn feichiog neu ar absenoldeb teuluol. Yn unol â'n hymrwymiadau i degwch hiliol a chynhwysiant traws, croesawn yn arbennig geisiadau gan bobl sydd â'r hunaniaethau hyn. Rydym wedi ymrwymo i newid gwasanaethau, gan eu gwneud yn berthnasol i bobl ifanc heddiw.

**Rydym wedi ymrwymo i addasu ein gwasanaethau i'w gwneud yn berthnasol i bobl ifanc a herio eraill i wneud hynny hefyd.**

Os yw hyn yn cyd-fynd â'ch persbectif, gobeithiaf y byddwch yn gwneud cais am y swydd hon.

Yn gywir

**RACHAEL EAGLES**
**PRIF SWYDDOG GWEITHREDOL**

# Area 43: Pwy Ydym Ni

Mae Area 43, Partner Arweiniol Partneriaeth Dyfodol Ni, wedi'i lleoli yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru, ac yn darparu gwasanaethau a arweinir gan bobl ifanc ar draws y DU. Rydym yn grymuso ac yn ehangu llais ieuenctid, ac yn hyrwyddo hawliau pobl ifanc i gael mynediad at gwnsela a chymorth lleol o ansawdd uchel.

## Rydym am weld byd ble:

- Nid oes unrhyw rwystrau i gymorth, ac mae gwasanaethau'n gynhwysol, yn hygyrch ac yn hwyl.
- Mae sefydliadau eraill yn dilyn ein model i ddarparu gwasanaethau hyblyg, ymatebol, wedi'u harwain gan anghenion sy'n sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a phobl ifanc unigol.
- Mae ein gwasanaethau, a'r rhai o'n cwmpas, yn datgloi potensial ar bob cam o fywydau pobl ifanc, yn enwedig pan fyddan nhw'n wynebu anghydraddoldeb neu anfantais.
- Rydym yn cyfrannu at yr amgylchedd cyfreithiol, polisi ac ymarfer, gan eirioli dros blant a phobl ifanc.
- Mae pobl ifanc yn cael eu grymuso i gymryd rhan yn y gymuned leol, gan fynd i'r afael â materion eu cenhedlaeth.

## Ein Gwerthoedd

| | |
|---|---|
| Dibynadwy: | *Rydym yn gefnogol ac yn anfeirniadol. Gall pobl ifanc ymddiried ynom i ddweud y gwir wrth rym, ac i floeddio lleisiau'r ifanc.* |
| Dewr: | *Rydym yn feiddgar, yn ddewr a byddwn yn cymryd risgiau er mwyn cael pobl ifanc yr hyn y maent ei eisiau a'i angen.* |
| Chwilfrydig: | *Dywedwch wrthym rywbeth nad ydym yn ei wybod. Rydyn ni wrth ein bodd yn dysgu, yn tyfu ac yn ymchwilio i brosiectau newydd!* |
| Anhunanol: | *Rydym am helpu.  Rydyn ni'n poeni am bobl ifanc a byddwn ni'n gwneud popeth o fewn ein gallu i'w cefnogi i gyrraedd lle mae angen iddyn nhw fynd.* |
| Aflonyddol: | *Nid yw newid yn digwydd heb unrhyw darfu, ac fel llawer o bobl ifanc rydyn ni'n gweithio gyda nhw, rydyn ni'n creu trafferthion da!* |
| Wedi ein Gyrru: | *Rydym yn angerddol am helpu pobl ifanc i gyflawni eu nodau ac yn cael ein hysgogi i wneud newid.* |

Yn Area 43, mae pob aelod o staff yn gwneud gwahaniaeth. Rydyn ni'n cofleidio unigoliaeth, yn dathlu ein cryfderau ac yn helpu ein gilydd i dyfu, dyna sy'n caniatáu i ni wneud i bethau ddigwydd a'n gwneud ni pwy ydyn ni.

Mae Area 43 yn ymfalchïo yn ein diwylliant gwaith a bydd yn parhau i feithrin llesiant ein staff ar draws ein holl strwythurau, sydd wedi'u hymgorffori mewn polisi. Mae ein staff yn hunanfyfyriol, yn wydn, yn onest ac yn ymroddedig. Gwnawn bopeth o fewn ein gallu i sicrhau llesiant tîm fel y gallant berfformio hyd eithaf eu gallu gyda'r plant a'r bobl ifanc rydym yn eu cefnogi.

Mae ein tîm wedi ymrwymo i sicrhau amgylchedd gwaith cadarnhaol, ac yn addo:

**Cael hwyl a dod o hyd i'r llawenydd!**
**Bod yn agored ac yn barchus i herio**
**Bod yn ymwybodol o'm gweithredoedd**
**Bod yn agored ac yn onest**
**Siarad â'r person iawn**
**Bod yn chi eich hunan gorau**
**Cynnal ffiniau clir**
**Cofio y gall ein gwahaniaethau fod yn gryfderau i ni**

### Arweinir gan ieuenctid
Mae cael eich arwain gan bobl ifanc yn golygu gwybod pryd i gamu o'r ffordd a gadael i bobl ifanc gymryd yr awenau. Mae Area 43 yn credu yng ngalluoedd ac uchelgeisiau pobl ifanc ac yn eu grymuso i wneud newid gwirioneddol. Mae Area 43 yn cael ei arwain gan bobl ifanc o'r dechrau'n deg, ac rydym yn benderfynol o arwain eraill i gael eu harwain gan bobl ifanc hefyd.

## Safleoedd Saff Area 43
Profodd ein hymgynghoriad bod pobl ifanc am gael mynediad at wasanaethau anffurfiol eu natur a'u bod yn llai tebygol o fynychu lleoliadau wedi'u targedu a lleoliadau ffurfiol; mae pobl ifanc yn gofyn i ni am safleoedd saff cyffredinol a mynediadau agored.

Mae Area 43 wedi ymrwymo i redeg safleoedd saff ar draws Canolbarth a Gorllewin Cymru, a rhannu ein gwybodaeth ag eraill ar draws y DU. Mae hyn er mwyn gallu helpu pobl ifanc i fwrw ymlaen â'r newid y maent am ei weld.

Mae pobl ifanc yn dweud wrthym eu bod angen safleoedd saff ymroddedig i gyfarfod yn ddiogel, safleoedd o safon, lle gallant gael mynediad at gymorth pe bai ei angen arnyn nhw.

Yn fwy cyffredinol, mae safle saff yn cynnig y canlynol i bobl ifanc:

- Safle cyfarfod hamddenol, sy'n ddiogel, yn gyfeillgar ac yn gynhwysol
- Safle i bob person ifanc o bob cefndir cymdeithasol a diwylliannol ryngweithio'n gymdeithasol â'u cyfoedion mewn amgylchedd diogel a chefnogol heb gyffuriau ac alcohol;
- Safle ar gyfer ymlacio, hamddena ac adloniant a, lle bo'n briodol, bod yn safle ar gyfer gwybodaeth, cyfeirio at wasanaethau neu hyd yn oed darpariaeth gofal/gwasanaeth uniongyrchol;
- Safle lle gall pobl ifanc ddatblygu perthnasoedd o ansawdd da gyda'u cyfoedion a chydag oedolion;
- Safle anffurfiol, addysgiadol i bobl ifanc ddysgu sgiliau bywyd a gwella eu cyfleoedd cyflogaeth.

Mae safleoedd saff yn anhraddodiadol ac felly'n gysylltiol, ac nid oes unrhyw stigma na label yn ymwneud â mynychu'r safle. Un o'i werthoedd allweddol yw p'un a yw person ifanc yn mynd yno dim ond i gymdeithasu â ffrindiau, yfed coffi a gwrando ar gerddoriaeth, neu fynd yno i gael cymorth penodol i ddelio ag argyfwng, Ar gyfer yr holl ddibenion hyn, edrycha yr un peth ac felly mae'n meithrin cynhwysiant sydd mor bwysig i bobl ifanc.

Mae Area 43 wedi ymrwymo i fodloni gofynion safleoedd saff fel y'u diffinnir ym Maniffesto $S^3$ (Grŵp Lobio Ieuenctid Ceredigion):

- Am ddim yn y pwynt mynediad.
- Safle i bobl ifanc, gan bobl ifanc, wedi'i osod o fewn fframwaith o weithwyr proffesiynol y gellir ymddiried ynddyn nhw.
- Safle sy'n cyfathrebu â phobl ifanc ac yn cyfeirio at y gwasanaethau sydd ar gael.
- Safle sy'n eirioli dros hawliau a llesiant pobl ifanc.
- Safle lle gall person ifanc fod yn agored i niwed heb gael ei farnu.
- Safle lle nad oes stigma yn bodoli.
- Safle cwbl gynhwysol.
- Safle lle nad oes angen i chi ymddiheuro.
- Safle lle ceir diodydd cynnes a bwyd, sy'n gysur.
- Safle sy'n annog unigoliaeth.
- Safle a all gynnig tegwch, sefydlogrwydd, cysondeb a dibynadwyedd.
- Safle sy'n annog ymdeimlad o gymuned, ac yn helpu i adeiladu rhwydweithiau cymorth.
- Rhywle sy'n rhoi cyfle i'r gwasanaeth a defnyddwyr y gwasanaeth ymyrryd yn gynnar mewn argyfyngau iechyd meddwl, a'u hatal.

## Gwasanaeth Cwnsela Area 43

Darperir ein gwasanaethau cwnsela ar draws siroedd Powys, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Phenfro ar gyfer pobl ifanc rhwng 5-30 oed, yn dibynnu ar agwedd ar y gwasanaeth, boed hynny mewn ysgolion, ar-lein, yn y gymuned, neu yn un o'n Safleoedd Saff.

Mae Area 43 yn cydnabod cwnsela fel proses bwrpasol sy'n galluogi cleientiaid i ddatrys problemau a magu hyder yn eu gallu i gyfrannu'n llwyddiannus at eu datblygiad dysgu, personol a chymdeithasol. Mae ein darpariaeth gwnsela yn un ffordd y mae Area 43 yn gweithio i sicrhau bod yr holl blant a phobl ifanc rydym yn gweithio â nhw yn cael y cyfle i gyrraedd eu llawn botensial.

Pwrpas ein gwasanaeth cwnsela yw i:

- Alluogi unigolion i fod yn fwy effeithiol yn eu bywydau o fewn a thu allan i gymorth Area 43
- Nodi a darparu amodau a fydd yn hwyluso llesiant a datblygiad personol cleientiaid.
- Darparu gwasanaeth cwnsela fel mecanwaith cefnogi annatod ar gyfer dysgu cleientiaid.
- Adlewyrchu ymrwymiad i God Moeseg ar gyfer Cwnselwyr Cymdeithas Cwnsela a Seicotherapi Prydain (BACP).

Mae'n bolisi gan Area 43 y dylai pob cleient gael mynediad cyfartal at gwnsela tymor byr, sef 6 sesiwn wythnosol fel arfer, sef:

- Am ddim/Wedi eu Hariannu
- Diduedd
- Gyda'r cleient yn ganolog
- Hygyrch
- Wedi'i ddarparu gan y rhai sydd â hyfforddiant ac arbenigedd perthnasol
- O fewn fframwaith cyfrinachedd
- Wedi'i ddarparu gan gwnselwyr sy'n derbyn goruchwylio priodol, sy'n gweithio o fewn BACP neu ganllawiau ethegol cyfatebol

## Rydym am weld byd ble:

Nid oes unrhyw rwystrau i gymorth. Ble mae gwasanaethau yn gynhwysol, yn hygyrch ac yn hwyl.

Mae sefydliadau eraill yn dilyn ein model i ddarparu gwasanaethau hyblyg, ymatebol, wedi'u harwain gan anghenion sy'n sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a phobl ifanc unigol.

Mae ein gwasanaethau, a'r rhai o'n cwmpas, yn datgloi potensial ar bob cam o fywydau pobl ifanc, yn enwedig pan fyddan nhw'n wynebu anghydraddoldeb neu anfantais.

Rydym yn cyfrannu at yr amgylchedd cyfreithiol, polisi ac ymarfer, gan eirioli dros blant a phobl ifanc.

Mae pobl ifanc yn cael eu grymuso i gymryd rhan yn y gymuned leol, gan fynd i'r afael â materion eu cenhedlaeth.

## I ddarganfod mwy:

Os ydych yn rhannu ein gwerthoedd ac yn credu yn ein cenhadaeth i newid y byd, byddwn wir yn hoffi clywed oddi wrthych.

Cysylltwch gyda hr@area43.co.uk neu ffoniwch ni ar 01239 614566 am sgwrs am ba swydd allai fod yn addas ar eich cyfer.

# Rôl Gweithiwr Cymorth Ieuenctid

## Beth yw Llyw a Byw?

Cynhaliodd Partneriaeth Dyfodol Ni, y mae Area 43 yn Bartner Arweiniol ar ei chyfer, 6 mis o ymgynghori â phobl ifanc ar draws Ceredigion. Siaradodd y Tîm Ymgysylltu â bron i 1300 o bobl ifanc mewn digwyddiadau ymgysylltu a oedd yn benodol ar gyfer pobl ifanc. Fe wnaethant fwydo'r data hwn yn ôl i'w grŵp llywio o bobl ifanc, $S^3$ (Safe Space to Speak | Safle Saff i Siarad), a'i distyllodd yn dri mater allweddol yr oedd pobl ifanc Ceredigion am fynd i'r afael â hwy:

- System drafnidiaeth druenus nad yw'n addas i'r diben.
- Mynediad i wasanaethau yn cael ei effeithio gan faterion trafnidiaeth a natur wledig Ceredigion.
- Prinder mannau diogel ar gyfer defnydd pobl ifanc yn unig.

Feelz on Wheelz / Llyw a Byw yw ymateb $S^3$ i'r materion hyn. Fe ddylunion nhw'r gwasanaeth o'r newydd, a buont yn rhan o bob penderfyniad, gan gynnwys ar y panel recriwtio staff. Fel Depot, mae'n gaffi ieuenctid symudol a arweinir gan bobl ifanc a gwasanaeth cymorth i bobl ifanc 13-25 oed yng Ngheredigion. Mae'r fan yn teithio o gwmpas y sir ar sail rota, gyda'r nod o dargedu pobl ifanc sydd heb ddigon o wasanaethau neu bobl ifanc ynysig yn benodol. Mae'r amserlen yn cael ei diweddaru bob 12 wythnos, ac yn cael ei phostio ar sianel Instagram Llyw a Byw, @feelzonwheelzceredigion. Mae'n cael ei redeg gan Weithwyr Cymorth Ieuenctid, wedi'u hyfforddi gan Area 43, sy'n rhedeg yr elfen caffi a'r elfen gwasanaeth cymorth ar hyn o bryd. Maent hefyd yn cymryd rhan mewn gweithgareddau dargyfeiriol a chreadigol ar gais y bobl ifanc.

Mae'r lleoliad yn yr awyr agored yn bennaf, gyda staff yn sefydlu caffi awyr agored. Yn y gaeaf, mae'r gwasanaeth yn ceisio defnyddio adeiladau cymunedol fel neuaddau pentref i ddarparu gofod dan do.

## DISGRIFIAD SWYDD

**Teitl y Swydd:** **Gweithiwr Cymorth Ieuenctid**

**Cytundeb:** Amrywiol

**Cyflog:** £24,000 y flwyddyn (pro rata i swyddi rhan amser)

**Lleoliad:** Lleolir yn Aberteifi, Ceredigion, SA43 1JS, ac ar draws y sir

**Buddion:** Cyfraniadau pensiwn: 3% cyflogwr; 5% gweithiwr
20 diwrnod y flwyddyn ynghyd â gwyliau banc statudol

***Ariennir y swydd hon gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol tan Mawrth 2028. // This post is funded by The National Lottery Community Fund until March 2028.***

Mae Caffi Ieuenctid Symudol Llyw a Byw yn recriwtio Gweithwyr Cymorth Ieuenctid brwdfrydig ac ymroddedig i ymuno â'r tîm. Gan adrodd i Reolwr Gwasanaethau Llyw a Byw, mae rôl y Gweithiwr Cymorth Ieuenctid yn cynnwys gweithio gyda'r tîm i ddarparu cefnogaeth, gwybodaeth, cyfeirio, a safle saff i bobl ifanc yn y caffi ieuenctid symudol. Er bod cymwysterau perthnasol mewn Gwaith Ieuenctid yn ddymunol, darperir rhaglen hyfforddi lawn, gan gynnwys hyfforddiant achrededig mewn Gwaith Ieuenctid Lefel 3 a diogelu, a chofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg, fel rhan o'r rôl. Bydd y rôl yn cynnwys patrwm sifftiau rhwng 11am a 7:30pm, o ddydd Llun i ddydd Sadwrn.

Mae Llyw a Byw yn man anffurfiol, addysgiadol i bobl ifanc gael mynediad i rwydwaith cymorth o'u cyfoedion, a chefnogaeth anffurfiol a ffurfiol dros eu lles a'u hiechyd meddwl gan Weithwyr Cymorth Ieuenctid hyfforddedig a chymwys. Gallai hyn gynnwys, ond nid yw wedi'i gyfyngu i: sesiynau cymorth 1:1 neu grŵp gyda Gweithwyr Cymorth Ieuenctid, sgyrsiau anffurfiol rheolaidd gyda'r tîm Gwaith Cymorth Ieuenctid, cymryd rhan mewn gweithgareddau neu weithdai a hwylusir gan y tîm Gwaith Cymorth Ieuenctid, ymgysylltu â neu atgyfeirio i gwasanaeth cwnsela Area 43, cyfeirio a/neu atgyfeirio ymlaen at sefydliadau eraill neu gymorth arbenigol. Maent hefyd yn cael y cyfle i ddysgu sgiliau bywyd, a gwella eu cyfleoedd cyflogaeth.

Mae'r Gweithwyr Cymorth Ieuenctid yn hwyluso diwylliant anffurfiol, hwyliog yn Feelz on Wheelz, gydag ymdeimlad cryf o lywodraethu gan bobl ifanc. Er y gall Gweithwyr Cymorth Ieuenctid hwyluso gweithgareddau a digwyddiadau, y bobl ifanc eu hunain sy'n eu pennu a'u harwain yn bennaf. Byddwch yn darparu cyfleoedd i bobl ifanc sydd â phroblemau yn eu bywydau neu hebddynt, i gymysgu â'i gilydd. Mae'r mynediad agored hwn yn annog amrywiaeth, cynhwysiant a thegwch, gan herio'r stigma canfyddedig ynghylch gwasanaethau cymorth, a meithrin gwerthoedd sy'n bwysig i bobl ifanc.

**Prif gyfrifoldebau:**

- Darparu gwybodaeth a chefnogaeth i bobl ifanc sy'n defnyddio Depot a Feelz on Wheelz/Llyw a Byw
- Cynllunio, creu a chynnal gweithgareddau ar y cyd â phobl ifanc
- Rhoi'r grym i bobl ifanc i gynnig eu syniadau ar gyfer darparu gwasanaethau
- Darparu cymorth 1:1 wedi'i deilwra i bobl ifanc ar leoliadau gwaith â chymorth
- Ymgysylltu â phobl ifanc, wyneb yn wyneb ac yn rhithwir
- Creu cynnwys deniadol i bobl ifanc ar draws llwyfannau cyfryngau cymdeithasol
- Hyrwyddo a chynnal amgylchedd diogel, cynhwysol a herio ymddygiad amhriodol
- Ymwneud â'r Cŵn Therapi a chymryd cyfrifoldeb yn eu tro
- Cynnal Allgymorth gyda Phobl Ifanc yn yr ardal
- Rhedeg y caffi ieuenctid symudol, gan gynnwys gosod a phacio ardal eistedd y caffi a'r gegin, paratoi bwyd a diod, a phrotocolau hylendid bwyd

**Yn ogystal â diddordeb amlwg a gwirioneddol yng ngwaith Area 43 a Dyfodol Ni, bydd gan yr ymgeisydd llwyddiannus brofiad o/ac yn gallu dangos:**

- Profiad blaenorol o weithio gyda phobl ifanc
- Profiad blaenorol mewn rôl gefnogol gyda chyfrifoldeb eang
- Gallu bod yn ofalgar, sensitif ac amyneddgar tra'n cefnogi pobl i fod mor annibynnol â phosibl.
- Yn frwd i wneud gwahaniaeth ym mywydau pobl
- Gallu gwrando, deall ac ymateb i bobl, gan roi'r person sy'n cael ei gefnogi yn gyntaf ar bob adeg
- Gallu dod ymlaen yn dda gyda phobl a gweithio mewn cytgord ag eraill, trwy herio a helpu pobl i ddatblygu a dysgu o'u profiadau.
- Gallu bod yn hyblyg ac yn agored i heriau, syniadau a phrofiadau newydd
- Gallu dangos gwerthoedd ac ymddygiadau Area 43
- Meddu neu fod yn fodlon gweithio tuag at Dystysgrif Lefel 3 mewn Ymarfer Gwaith Ieuenctid
- Meddu ar Drwydded Yrru lawn, lân y DU

Mae'r rôl hon yn cynnwys gweithgarwch a reoleiddir gyda phlant a phobl ifanc a bydd angen gwiriad DBS manylach a gwiriad gan y Rhestr Gwahardd Plant.

*Mae Area 43 wedi ymrwymo i gydraddoldeb, cynhwysiant ac amrywiaeth ac mae'n croesawu ceisiadau gan bob ymgeisydd â chymwysterau addas. Rydym wedi ymrwymo i ddarparu amgylchedd gwaith cefnogol lle mae pob unigolyn yn cael ei barchu, ei werthfawrogi a'i gynnwys.*

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth, anfonwch e-bost at hr@area43.co.uk neu ffoniwch Sally Hurman yn Area 43 ar 01239 614 566. I wneud cais am y rôl hon, anfonwch eich CV yn amlinellu eich hanes cyflogaeth, cymwysterau academaidd a phroffesiynol ynghyd â llythyr eglurhaol (dim mwy na 2 x tudalen A4) yn amlinellu eich cymhelliant dros wneud cais ac yn dangos sut rydych chi'n gwneud cais am y meini prawf a amlinellwyd yn yr adran ' o/demonstrate' i hr@area43.co.uk.  Ni fydd ceisiadau a wneir drwy Indeed yn cael eu hystyried.

Os hoffech unrhyw wybodaeth bellach, neu os hoffech drafod y rôl, cysylltwch â Sally Hurman i drefnu sgwrs gyda'r rheolwr perthnasol.

Ionawr 2026